# Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013

**2013 dccc 5**

*Troseddau*

## 11 Troseddau gan gyrff corfforaethol

(1) Pan fo corff corfforaethol yn cyflawni trosedd o dan adran 10 ac os profir bod y trosedd hwnnw wedi ei gyflawni â chydsyniad neu gydgynllwyn unrhyw un o'r canlynol, neu y gellir ei briodoli i esgeulustod ar ran unrhyw un o'r canlynol—

(a) unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr neu ysgrifennydd i'r corff corfforaethol, neu

(b) unrhyw swyddog oedd yn honni gweithredu yn rhinwedd unrhyw un o'r swyddi hynny,

bydd yr unigolyn hwnnw (yn ogystal â'r corff corfforaethol) yn euog o'r trosedd ac yn agored i achos yn ei erbyn a chosb yn unol â hynny.

(2) Mae'r cyfeiriad at gyfarwyddwr, rheolwr neu ysgrifennydd i'r corff corfforaethol yn cynnwys cyfeiriad at—

(a) unrhyw swyddog tebyg sydd gan y corff;

(b) pan fo'r corff yn gorff corfforaethol y mae ei fusnes yn cael ei reoli gan ei aelodau, unrhyw swyddog neu aelod o'r corff.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 11 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 21(1)**

**I2** A. 11 mewn grym ar 1.12.2015 gan O.S. 2015/1679, **ergl. 3(c)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013, Adran 11.